

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Ebrill 2015

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Newidiadau i'r Rhaglen Brechu rhag yr Eryr

Dyddiad dod i ben / Adolygu Dd/G

I'w Weithredu gan:

Meddygon teulu
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru

At sylw:

Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd,
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau
Ataliadwy (VPD), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru)

Anfonir gan:

Prif Swyddog Meddygol Cymru

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :

David Vardy, Tîm Cydnerthedd Iechyd, Adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1318

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

Newidiadau i'r Rhaglen Brechu rhag yr Eryr

Y Rhaglen Brechu rhag yr Eryr

1. Mae'r Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio wedi argymhell rhaglen brechu rhag yr eryr i bobl rhwng 70 a 79 oed. Mae datganiad y Cyd-bwyllgor am frech yr eryr ar gael yn:

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+www.dh.gov.uk/ab/JCVI/DH_094744
2. Mae Llywodraeth Cymru, fel gwledydd eraill y DU, wedi penderfynu cyflwyno rhaglen brechu rhag yr eryr yn raddol.
3. Cyflwynwyd rhaglen genedlaethol ar 1 Medi 2013. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cynigiwyd y brechlyn i bobl 70 oed fel rhan o raglen gyffredinol newydd, ac i bobl 79 oed fel cam cyntaf rhaglen dal i fyny. Estynnwyd y rhaglen dal i fyny i bobl 78 a 79 oed yn 2014-15.

Dyddiadau Cyflenwi'r Rhaglen

4. Ar gais Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru), diwygiwyd dyddiadau cyflenwi'r rhaglen brechu rhag yr eryr yn 2014-15. Bydd y rhaglen yn dechrau ar 1 Ebrill bob blwyddyn ac yn para am 12 mis hyd at 31 Mawrth. Gall cleifion cymwys, **fel y'u diffinnir isod**, gael eu brechu ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod hwn.

Carfannau cymwys o 1 Ebrill 2015

5. Diffinnir pob carfan gymwys yn ôl oedran y claf ar 1 Medi bob blwyddyn. Mae'r nodiadau esboniadol isod yn rhoi manylion y cleifion cymwys o 1 Ebrill 2015. Bwriedir i'r meini prawf hyn fod ar waith mewn blynyddoedd i ddod ac ni fydd angen eu diweddarau ymhellach.
 - a. Bydd unrhyw un sy'n 70 oed ar 1 Medi yn y flwyddyn frechu yn gymwys i gael y brechlyn a gall ei gael ar unrhyw adeg cyn ei ben-blwydd yn 80 oed.
 - b. Mae ymgyrch 'dal i fyny' hefyd i'r rhai sy'n cyrraedd 78 oed, ond sydd o dan 80 oed o hyd.
 - c. Bydd unrhyw un sydd wedi bodloni'r meini prawf cymhwysedd ers i'r rhaglen ddechrau ar 1 Medi 2013 ond nad yw wedi cael y brechiad eto yn parhau i fod yn gymwys hyd at y diwrnod cyn ei ben-blwydd yn 80 oed. I'r cleifion hyn, gall y brechlyn gael ei gynnig pan fydd cyfle'n codi neu ar gais y claf. Ni fydd angen i bractisau nodi na gwahodd cleifion y tu allan i'r flwyddyn frechu gyffredinol a drefnwyd ar gyfer y garfan.

6. I grynhoi, ar gyfer unrhyw gyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth bydd claf cymwys:

- wedi ei eni ar neu ar ôl 02 Medi 1942

A

- bydd wedi cyrraedd 70 oed erbyn 1 Medi

A

- bydd o dan 80 oed.

NEU

- bydd yn 78 neu'n 79 oed.

7. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd o frechlynnau a gall nodi bod digon ohonynt ar gael i ymestyn y rhaglen dal i fyny i gleifion eraill er mwyn atal gwastraff gormodol. Os felly, cyhoeddir gwybodaeth bellach ar yr adeg briodol.

8. Ar ôl cwblhau'r rhaglen dal i fyny, bydd y broses o frechu'r garfan yn dod i ben a chaiff y brechlyn ei gynnig i unigolion sy'n cyrraedd 70 oed.

Trefniadau ariannu a gwasanaeth

9. Cytunwyd ar y trefniadau gwasanaeth â Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) fel a ganlyn:

- Ar gyfer y rhaglen gyffredinol, mae'r Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol, o ran Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol 2014, wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newid i ddyddiadau cyflenwi'r rhaglen. Gwneir taliad o £7.71 mewn perthynas â phob claf cofrestredig sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac sydd wedi cael y brechlyn rhag yr eryr yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.
- Cytunwyd ar Wasanaeth Cenedlaethol Ychwanegol ar gyfer y rhaglen dal i fyny. Atodir copi yn Atodiad 1. Gwneir taliad o £7.71 mewn perthynas â phob claf cofrestredig sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac sydd wedi cael ei frechu yn ystod y cyfnod penodedig.

Casglu Data ar Gyfraddau Brechu

10. Mae'n ofynnol i bractisau roi data i Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n ddigonol i arolygu a monitro'r rhaglen brechu rhag yr eryr. Caiff data i fonitro cyfraddau brechu eu casglu yn awtomatig yn debyg i'r rhaglenni

imiwneiddio oedolion presennol sy'n cael eu cyflenwi drwy Bractisau Cyffredinol ac ni chaiff cleifion eu henwi.

11. Er mwyn monitro cyfraddau imiwneiddio yn gywir, rhaid i bob brechiad rhag yr eryr a roddir gael ei gofnodi mewn dull amserol yn system wybodaeth glinigol practis y meddyg teulu gan ddefnyddio codau Darllen priodol. Bydd disgwyl i unrhyw Bractis Cyffredinol yng Nghymru sy'n dewis peidio â rhoi data ar gyfraddau imiwneiddio i lechyd Cyhoeddus Cymru mewn dull electronig awtomatig fynd ati i archwilio system wybodaeth glinigol ei bractis meddyg teulu ei hun er mwyn darparu data cyfatebol.

Rhagor o wybodaeth

12. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen brechu rhag yr eryr ar gael gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn:

<http://www.publichealthwales.org/vaccines>

13. Mae'r eryr yn gyfrifol am nifer fawr o achosion o afiachusrwydd mewn pobl hŷn ac rydym yn gobeithio y bydd cydweithwyr yn cydnabod y manteision sylweddol y bydd brechlyn rhag yr eryr yn eu cynnig i'w cleifion. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb dan sylw am gyflenwi'r rhaglen ac am eich cymorth parhaus.

Yn gywir

Dr Ruth Hussey OBE
Prif Swyddog Meddygol

Rhaglen Dal i Fyny yr Eryr yng Nghymru

Ebrill 2015 ymlaen

Manyleb y Gwasanaeth Cenedlaethol Ychwanegol ar gyfer Rhaglen dal i fyny yr eryr yng Nghymru

Cyflwyniad

1. Mae'r rhaglen dal i fyny hon wedi'i chyfeirio at bractisau meddygon teulu sy'n darparu gwasanaethau brechu ac imiwneiddio yng Nghymru ac mae'n ofynnol i fyrdau iechyd gynig y fanyleb gwasanaeth hon i bractisau meddygon teulu.
2. Cytunwyd ar y rhaglen dal i fyny hon rhwng Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) Cymdeithas Feddygol Prydain. Rhestrir y gofynion gwasanaeth yn Atodiad A.

Cefndir

3. Mae'r Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio wedi argymhell y dylid ychwanegu brechiad cyffredinol rhag yr eryr at y rhaglen oedolion i gleifion rhwng 70 a 79 oed. Cyhoeddwyd y câi brechiad cyffredinol rhag yr eryr i gleifion 70 oed, ond nad ydynt eto wedi cyrraedd 71 oed, ei gyflwyno ar 1 Medi 2013 fel rhan o newidiadau i gontract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2013/14.
4. Cytunodd Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) ar y rhaglen dal i fyny, yn weithredol o fis Medi 2013. Roedd yn gymwys i bob claf cofrestredig 79 oed, ond nad oedd eto wedi cyrraedd 80 oed, ar 1 Medi 2013.
5. Cynigir y bydd y rhaglen dal i fyny yn parhau dros nifer o flynyddoedd er mwyn cyrraedd yr holl bobl hynny hyd at, a chan gynnwys, 79 oed nes bod y rheini a oedd yn 70 oed ar 1 Medi 2013 yn cyrraedd 79 oed.

Hyd y rhaglen a'r garfan o gleifion

6. Mae dyddiadau'r rhaglen dal i fyny flynyddol wedi cael eu diwygio, ar gais Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru), yn weithredol o 1 Ebrill 2014. Bydd y rhaglen yn dechrau ar 1 Ebrill bob blwyddyn ac yn para am 12 mis hyd at 31 Mawrth.
7. Bydd yn ofynnol i bractisau meddygon teulu, pan fydd cyfle'n codi, frechu pob claf 78 neu 79 oed, ond nad yw wedi cyrraedd 80 oed, ar 1 Medi bob blwyddyn ac nad yw wedi cael y brechlyn rhag yr eryr o'r blaen. Nid yw'n ofynnol i bractisau weithredu systemau galw ac adalw ond byddai'n arfer da gwneud hynny. Gall practisau gynig brechu cleifion cymwys pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau meddyg teulu.

8. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r cyflenwad o frechlynnau a gall nodi bod digon i ymestyn y rhaglen. Yna gellir gofyn i feddygon teulu hefyd frechu cleifion mewn grwpiau oedran eraill yn unol â'r fanyleb hon a bydd yr un trefniadau talu yn gymwys.
9. Bydd yn ofynnol i bractisau meddygon teulu gofnodi pob dos a roddir ar system wybodaeth glinigol y practis meddyg teulu mewn modd amserol.

Brechlyn

11. Zostavax® (a gaiff ei farchnata gan Sanofi Pasteur MSD) yw'r unig frechlyn trwyddedig yn Ewrop i atal yr eryr. Mae'r drwydded yn nodi y dylid ei ddefnyddio ar gyfer oedolion 50 oed a throsodd. Mae'n cynnwys math byw o'r feirws ac fe'i cyflenwir fel un ffiol o bowdwr, a thoddydd mewn chwistrell wedi'i llenwi ymlaen llaw, a phan gaiff ei ailgyfansoddi bydd un dos yn 0.65 ml.
12. Dylai un dos o Zostavax® gael ei roi i bob claf sy'n gymwys ar gyfer y rhaglen hon. Gall Zostavax® gael ei roi ar yr un pryd â brechlynnau eraill, gan gynnwys brechlyn rhag y ffliw tymhorol a pneumococcal polysaccharide (PPV).
13. Mae'r brechlyn wedi cael ei gaffael yn ganolog a dylid ei archebu yn yr un ffordd ag y mae practisau cyffredinol a fferyllfeydd byrddau iechyd yn archebu brechlynnau plant ar hyn o bryd.

Casglu data ar Gyfraddau Brechu

14. Mae'n ofynnol i bractisau roi data i Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n ddigonol i arolygu a monitro'r rhaglen frechu *Herpes zoster*. Caiff data i fonitro cyfraddau brechu eu casglu yn awtomatig yn debyg i'r rhaglenni imiwneiddio oedolion presennol sy'n cael eu cyflenwi drwy Bractisau Cyffredinol ac ni chaiff cleifion eu henwi.
15. Er mwyn monitro cyfraddau imiwneiddio yn gywir, rhaid i bob brechiad rhag yr eryr a roddir gael ei gofnodi mewn dull amserol yn system wybodaeth glinigol y practis meddyg teulu gan ddefnyddio codau Darllen priodol. Bydd disgwyl i unrhyw Bractis Cyffredinol yng Nghymru sy'n dewis peidio â rhoi data ar gyfraddau imiwneiddio i Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn dull electronig awtomatig fynd ati i archwilio system wybodaeth glinigol ei bractis meddyg teulu ei hun er mwyn darparu data cyfatebol.

Tabl 1: Codau Darllen yr Eryr

	Darllen f2	Darllen CTV3	SNOMED CT
Brechiad Herpes zoster	65FY.	XaZsM	859641000000109
Brechiad herpes zoster wedi ei wrtharwyddo	8I2r.	Xaa9i	868531000000103
Brechiad herpes zoster wedi ei wrthod	8IEl.	Xaa9j	868551000000105
Dim caniatâd ar gyfer brechiad herpes zoster	68Nv.	Xaa9l	868601000000108

16. Gellir gweld y codau Darllen at ddibenion cofnodi data hefyd yn:

<http://howis.wales.nhs.uk/immunisation>.

17. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd yn gyson ar y cyfraddau brechu ar lefel bwrdd iechyd.

Talu a dilysu

18. Bydd practisau meddygon teulu yn cael taliad eitem gwasanaeth o £7.71 mewn perthynas â phob claf cofrestredig sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a fanylir uchod ac a gaiff ei frechu yn ystod y cyfnod penodedig.

19. Dim ond mewn amgylchiadau lle bydd pob un o'r gofynion canlynol wedi cael eu bodloni y bydd practisau meddygon teulu yn gymwys i gael taliad am y gwasanaeth hwn.

- a. Mae'r practis meddyg teulu wedi'i gontractio i ddarparu gwasanaeth brechu ac imiwneiddio fel rhan o Wasanaethau Ychwanegol.
- b. Roedd pob claf, yr oedd taliadau'n cael eu hawlio ar ei gyfer, ar restr gofrestredig practis meddyg teulu ar yr adeg y cafodd y brechlyn ei roi.
- c. Rhoddodd y practis meddyg teulu y brechlyn i bob claf yr oedd taliad yn cael ei hawlio ar ei gyfer.
- d. Roedd pob claf yr oedd taliad yn cael ei hawlio ar ei gyfer yn rhan o'r garfan ar yr adeg y cafodd y brechlyn ei roi.
- e. Ni chafodd y practis meddyg teulu unrhyw daliad o unrhyw ffynhonnell arall mewn perthynas â'r brechlyn (os felly, yna gall y byrddau iechyd adennill unrhyw daliadau fel y nodir ym mharagraffau 19.1 a 19.2 o'r Datganiad o Hawliau Ariannol¹).

¹ Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol o ran y Cyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol 2013. <http://www.cymru.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=480&id=215584>

f. Mae'r practis meddyg teulu yn cyflwyno'r hawliad o fewn chwe mis i roi'r brechlyn (gall byrddau iechyd neilltuo'r gofyniad hwn os cred fod hynny'n beth rhesymol i'w wneud).

20. Gwneir taliadau yn fisol h.y. y cyfrif misol wedi'i luosi â £7.71:

taliad misol = nifer y cleifion, yn y cyfrif misol, x £7.71
y cofnodwyd eu bod wedi cael y
brechiad rhag yr eryr o fewn y
meini prawf cymhwysedd

21. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am ddilysu ôl-daliadau. Gall hyn gynnwys archwilio hawliadau practisau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y gwasanaeth hwn.

22. Nodir y darpariaethau gweinyddol sy'n ymwneud â thaliadau o dan y gwasanaeth hwn yn Atodiad B.

Atodiad A: Gofynion gwasanaethau ar gyfer rhaglen dal i fyny yr eryr

Bydd contractwyr meddygon teulu sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol:

1. Pan fydd cyfle'n codi, yn brechu pob claf cofrestredig sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a ddisgrifir yn y fanyleb gwasanaeth hon gydag un dos o Zostavax® yn ystod y cyfnod penodedig. Nid yw'n ofynnol i bractisau meddygon teulu weithredu system alw/adalw ar gyfer y rhaglen hon ond byddai'n arfer da gwneud hynny.
2. Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion sy'n cael brechiad rhag yr eryr yn cael eu diweddarau'n gyson o ran y statws imiwneiddio a'u bod o leiaf yn cynnwys:
 - a. Unrhyw gynnig i imiwneiddio a wrthodwyd
 - b. Lle y derbynnir cynnig i imiwneiddio:
 - c. Rhif y swp, y dyddiad dod i ben ac enw'r brechlyn
 - d. Dyddiad rhoi'r brechlyn
 - e. Llwybr rhoi'r brechlyn a man chwistrellu pob brechlyn
 - f. Unrhyw wrtharwydd i'r brechiad neu'r imiwneiddio
 - g. Unrhyw adwaith croes i'r brechiad neu'r imiwneiddio
3. Sicrhau bod pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gysylltiedig â rhoi'r brechlyn:
 - a. Wedi cyfeirio at y canllawiau clinigol yn y Llyfr Gwyrdd².
 - b. Yn meddu ar y wybodaeth, y profiad, y sgiliau, y cymhwysedd a'r hyfforddiant angenrheidiol, gan gynnwys adnabod anaffylacsis a rhoi triniaeth gychwynol ar ei gyfer.
4. Sicrhau bod pob archeb o'r brechlyn yn unol â chanllawiau cenedlaethol, gan gynnwys cydymffurfio â'r gofynion o ran y nifer fwyaf o frechlynnau y gellir eu cadw ar unrhyw un adeg. Caiff y brechlynnau ar gyfer y rhaglen hon eu cyflenwi'n ganolog a dylid eu harchebu yn yr un ffordd ag y mae practisau cyffredinol a fferyllfeydd byrddau iechyd yn archebu brechlynnau plant.
5. Sicrhau y caiff yr holl frechlynnau eu storio yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchydd a'r canllawiau a geir yn y Llyfr Gwyrdd.
6. Sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch, yn briodol ac yn sensitif i anghenion pob claf. Ni chaiff unrhyw glaf cymwys ei eithrio ac ni fydd yn wynebu unrhyw

anhawster penodol o ran cael gafael ar y gwasanaeth hwn a'i ddefnyddio'n effeithiol oherwydd ei hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a/neu ei oedran.

Atodiad B: Darpariaethau gweinyddol sy'n ymwneud â thaliadau o dan raglen dal i fyny yr eryr

1. Dylai taliadau o dan y gwasanaeth hwn gael eu trin at ddibenion cyfrifyddu a phensiynau fel incwm gros y practis meddyg teulu yn y flwyddyn ariannol.
2. Bydd y swm a gyfrifir fel taliad ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ddyledus ar ddiwrnod olaf y mis yn dilyn y mis pan fydd y practis meddyg teulu yn rhoi'r wybodaeth a nodwyd yn adran casglu data ar gyfraddau brechu'r fanyleb gwasanaeth hon.
3. Dim ond os bydd y practis meddyg teulu yn bodloni'r amodau canlynol y caiff taliad o dan y gwasanaeth hwn, neu unrhyw ran ohono, ei wneud.
 - a. Rhaid i'r practis meddyg teulu roi unrhyw wybodaeth i fyrddau iechyd o dan y gwasanaeth hwn, sydd ei hangen arnynt ac sydd gan y practis meddyg teulu neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo ei chael,
 - b. Rhaid i'r practis meddyg teulu gwblhau unrhyw ffurflenni angenrheidiol (p'un a ydynt ar gyfrifiadur neu fel arall) ar gyfer System Gofrestru Exeter a gwneud hynny'n brydlon ac yn llawn;
 - c. Rhaid i'r holl wybodaeth a gyflenwir yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir.
4. Os na fydd y practis meddyg teulu yn bodloni unrhyw un o'r amodau uchod, gall byrddau iechyd, mewn amgylchiadau priodol, atal y taliad cyfan, neu unrhyw ran ohono, sy'n ddyledus o dan y gwasanaeth hwn sy'n daladwy fel arall.

Darpariaethau sy'n ymwneud â phractisau meddygon teulu sy'n terfynu neu'n tynnu'n ôl o'r gwasanaeth hwn cyn 31 Awst mewn blwyddyn ariannol (yn ddarostyngedig i'r darpariaethau isod ar gyfer achos o derfynu y gellir ei briodoli i bractis meddyg teulu yn ymrannu neu'n uno)

5. Pan fydd practis meddyg teulu wedi ymuno â gwasanaeth dal i fyny yr eryr ond bod ei gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn dod i ben wedyn neu fod y practis meddyg teulu yn tynnu'n ôl o'r gwasanaeth cyn 31 Awst mewn blwyddyn ariannol, bydd hawl gan y practis meddyg teulu i daliad mewn perthynas â'i gyfranogiad os na fydd taliad o'r fath eisoes wedi'i wneud, wedi'i gyfrifo yn unol â'r darpariaethau a nodir isod. Bydd unrhyw daliad a gyfrifir yn ddyledus ar ddiwrnod olaf y mis yn dilyn y mis pan fydd y practis meddyg teulu yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol.

6. Er mwyn bod yn gymwys am daliad mewn perthynas â chyfranogiad o dan y gwasanaeth hwn, rhaid i'r practis meddyg teulu roi'r wybodaeth a nodwyd yn adran casglu data'r fanyleb gwasanaeth hon i'r bwrdd iechyd cyn y gwneir y taliad. Dylid darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig, o fewn 28 diwrnod yn dilyn terfynu'r contract neu dynnu'n ôl o'r cytundeb gwasanaethau ychwanegol.
7. Bydd y taliad sy'n ddyledus i bractisau meddygon teulu sy'n terfynu'r cytundeb gwasanaeth neu'n tynnu'n ôl ohono cyn 31 Awst mewn blwyddyn ariannol yn seiliedig ar nifer y brechiadau a roddwyd, cyn terfynu neu dynnu'n ôl.

Darpariaethau sy'n ymwneud â phractisau meddygon teulu sy'n uno neu'n ymrannu

8. Pan fydd dau neu fwy o bractisau meddygon teulu yn uno neu'n cael eu ffurfio yn dilyn rhaniad dan gontract o bractis meddyg teulu unigol ac o ganlyniad caiff y boblogaeth gofrestredig ei chyfuno neu ei rhannu rhwng practis(au) meddyg(on) teulu newydd, gall y practis(au) meddyg(on) teulu newydd lunio cytundeb newydd neu amrywiol i ddarparu gwasanaeth dal i fyny yr eryr.
9. Caiff cytundebau gwasanaeth y practisau meddygon teulu a luniwyd yn dilyn achos o uno dan gontract, neu'r rhai a luniwyd cyn y rhaniad dan gontract, eu trin fel rhai a derfynwyd a chaiff hawl y practis(au) meddyg(on) teulu hynny ei hasesu ar sail darpariaethau paragraff 5 o'r atodiad hwn.
10. Caiff yr hawl i unrhyw daliad(au) o'r practis(au) meddyg(on) teulu, a ffurfiwyd yn dilyn achos o uno neu ymrannu dan gontract, sy'n ymrwymo i'r cytundeb ar gyfer gwasanaeth dal i fyny yr eryr, ei hasesu a bydd unrhyw drefniadau newydd y gellir cytuno arnynt yn ysgrifenedig gyda'r bwrdd iechyd yn cychwyn ar yr adeg y bydd y practis(au) meddyg(on) teulu yn dechrau darparu trefniadau o'r fath.
11. Pan ymrwymir i'r cytundeb hwnnw a bod y trefniadau yn cychwyn o fewn 28 diwrnod i ffurfio'r practis meddyg teulu newydd hwnnw, tybir y bydd y trefniadau newydd wedi cychwyn ar y dyddiad y ffurfiwyd y practis meddyg teulu newydd hwnnw. Asesir y taliad yn unol â'r gofynion a ddisgrifir yn y fanyleb gwasanaeth hon o'r dyddiad cychwyn hwn.

Darpariaethau sy'n ymwneud ag achosion ansafonol o ymrannu ac uno

12. Pan fydd y practis meddyg teulu sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth yn destun achos o ymrannu neu uno ac
 - a. Byddai cymhwyso'r darpariaethau a nodir uchod mewn perthynas ag achosion o ymrannu neu uno, ym marn resymol y bwrdd iechyd, yn arwain at ganlyniad annheg; neu,
 - b. Mae amgylchiadau'r ymrannu neu'r uno yn golygu na ellir cymhwyso'r darpariaethau a nodir yn yr adran hon,

13. Gall y bwrdd iechyd, drwy ymgynghori â'r practis meddyg teulu neu'r practisau meddygon teulu dan sylw, gytuno ar daliadau o'r fath sy'n rhesymol ym mhob math o amgylchiadau ym marn y bwrdd iechyd.